

Dydd Gwener, 26ain o Hydref fe lansiwyd Apêl y Pabi yng Nghaerfyrddin. Ynghyd a Maer Tref Caerfyrddin, y Cynghorydd Emlyn Schiavone, roedd yna gynrychiolaeth o sefydliadau lleol gan gynnwys Cadeirydd Cangen Caerfyrddin o'r Llent Prydeinig, y Cynghorydd Barry Williams.



Bydd Cyngor Tref Caerfyrddin yn cymryd rhan yn nigwyddiad 'Battle's Over' - coffáu 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar yr 11eg o Dachwedd 2018.

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gwneud ei ran yn y 'Battle's Over', coffad rhyngwladol yn nodi 100 mlynedd ers i'r drylliau daweli ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd yn cymryd lle ar yr 11eg o Dachwedd 2018, gyda digwyddiadau drwy'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, ac mewn nifer o safleoedd dramor, gan gynnwys Seland Newydd, Iwerddon, Awstralia, Bermwda, Ffrainc, Gwlad Belg, Canada, yr Unol Daleithiau a'r Almaen.

Bydd yn cychwyn am 6a.m. gyda dros fil o bifyddion unig yn chwarae Battle's O'er, alaw draddodiadol Albanaidd sy'n cael ei chwarae ar ôl brwydr, ar draws y Deyrnas Unedig, tu allan i gadeirlannau a safleoedd unigol eraill drwy'r wlad a dramor, ac i ddilyn bydd yna deyrnged sydd wedi cael ei ysgrifennu'n arbennig, yn cael ei ddarllen allan.

Am 9.25 a.m. bydd Pared Dydd y Cadoediad Caerfyrddin yn ymgynnull yn y Clos Mawr ar gyfer gwasanaeth yn Eglwys San Pedr. Yn dilyn yr oedfa fe fydd y gynulleidfa yn gorymdeithio i Stryd y Prior ac yn ymgynnull wrth Gofeb Rhyfel y Sir i osod plethdorchau.

Am gwybodaeth - <https://www.facebook.com/events/626566504405184/>

### **11.11.18 – Amserlen Dydd y Cadoediad**

9.25a.m. Parêd o'r Clos Mawr

10a.m. Gwasanaeth yn Eglwys San Pedr

11a.m. Cofeb Rhyfel y Sir

11.15a.m. Parêd yn ôl

Am 6.55 p.m. bydd y biwglwyr yn swnio'r Last Post mewn dros fil o safleoedd, ac am 7 p.m. bydd Coelcerthi'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cael eu cynnu fel teyrnged yn arwyddocáu'r golau heddwch a ymddangosodd o'r tywyllwch yn dilyn pedair blynedd o ryfel.

Am 7.05 p.m. bydd dros fil o eglwysi a chadeirlannau yn canu eu clychau fel rhan o'r Ringing Out for Peace sydd wedi ei drefnu mewn cydgysylltiad â'r Central Council of Church Bell Ringers, sydd yn cynrychioli 65 cymdeithas clochyddion o'r Ynysoedd Prydeinig a thramor. Hefyd am 7.05 bydd mwy na 140 o grŵpwr tref yn adrodd darn sydd wedi ei ysgrifennu'n arbennig ar gyfer yr achlysul Cry for Peace Around the World, yr un cyntaf yn Seland Newydd ac yna dros y byd drwy'r amryw gylchfâu amser.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Emlyn Schiavone, "Rydym falch iawn i fod yn cymryd rhan yn y digwyddiad hanesyddol rhyngwladol yma i goffau canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Mawr, ac i gydnabod y cyfraniad a'r aberth a wnaeth bechgyn a merched o'n cymuned ni'n hunain". "Fydd Caerfyrddin yn cynnu coelcerth ei hun o Gastell Caerfyrddin am 7 o'r gloch, pryd bydd darn rhyngwladol yn cael ei adrodd 'Cry for Peace Around the World'. Byddwn yn codi Baner Heddwch ar ôl i'r Goelcerth cael ei chynnu o Gastell Caerfyrddin i anfon neges o heddwch o amgylch y byd o Gaerfyrddin."

#### **Rhaglen am y noson:**

6.45pm Pawb i ymgynnull wrth ochr Castell Caerfyrddin sydd ym Maes Parcio Neuadd y Sir, ar yr ochr sy'n edrych dros yr Afon Tywi

6.55pm Battle's Over - Last Post - Mr Gareth Morgan

Darllenir yr anogaeth

"Ni heneiddiant hwy

Fel ni a adawyd,

Ni ddwg oed iddynt ludded,

Na'r blynyddoedd gollfarn mwy,

Pan elo'r haul i lawr,

Ac ar wawr y bore,

Ni a'u cofion hwy."

Ymateb: "Ni a'u cofiwn hwy"

Cychwyn o'r Ddwy funud o Dawelwch

Diwedd y ddwy funud o dawelwch yn cael ei arwyddo wrth chwarae'r Reveille

7.00 p.m. Cynnu'r Goelcerth - Maer Caerfyrddin, Cynghorydd Emlyn Schiavone

7.05 p.m. Baner Heddwch - Maer Caerfyrddin, Cynghorydd Emlyn Schiavone

7.05 p.m. Galw am Heddwch o Amgylch y Byd / A Cry of Peace Around The World

7.10p.m. Anerchiad – Maer Caerfyrddin, Cynghorydd Emlyn Schiavone

7.30p.m. Diffodd y Goelcerth